# Marchogaeth ac arwain ceffylau yn yr awyr agored

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys marchogaeth ac arwain ceffylau yn yr awyr agored. Gallai hyn gynnwys cerdded a throtian. Dylech fod yn gallu ymarfer ceffylau yn unigol ac mewn grŵp. Bydd hyn yn cynnwys ystod o geffylau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. cwblhau'r paratoadau perthnasol cyn dechrau marchogaeth
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. dewis a gosod harneisiau ac offer addas yn cynnwys cenglau, ffrwyn ac esgidiau uchel
5. cadw rheolaeth dros geffylau sy'n cael eu marchogaeth a'u harwain mewn ffordd ddiogel yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. marchogaeth ac arwain ceffylau i gerdded a throtian yn unol â'r amodau yn cynnwys gallu aros, troi i'r chwith ac i'r dde
7. mynd ar gefn y ceffyl yn ddiogel gyda a heb gymorth
8. mynd oddi ar y ceffyl yn ddiogel
9. hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw anawsterau, fel y bo angen
10. dychwelyd y ceffylau i'r llety ar ôl cwblhau'r ymarfer
11. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gwaith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am  offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. sut i asesu addasrwydd ceffylau ar gyfer eu marchogaeth a'u harwain
4. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth farchogaeth ac arwain ceffylau mewn man agored a'r camau i'w cymryd mewn ymateb i'r rhain
5. y paratoadau angenrheidiol cyn marchogaeth, yn cynnwys cyfarwyddiadau ymarfer, cyfathrebu ac offer
6. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
7. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Symudiadau dilynol:

- cerdded
- trotian
- aros
- troi i'r chwith ac i'r dde
- mynd ar gefn
- mynd oddi ar gefn

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

Sut i ymateb i sefyllfaoedd:

- ceffylau eraill, pobl a cherbydau
- tywydd gwahanol
- arwynebeddau anffafriol

## Geirfa

Peryglon:

- ceffylau eraill
- da byw
- cnydau
- pobl
- anifeiliaid eraill
- beicwyr
- cerbydau
- tywydd
- arwynebeddau anffafriol

Marchogaeth ac arwain ceffylau yn yr awyr agored

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq216 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; marchogaeth; ffrwyn; esgidiau uchel; harneisiau; gwartholion |